# Cyngor Dinas Bangor

## Cofnodion y Pwyllgor Monitro Cyllid

Dydd Gwener 12 Mehefin 2026, Parlwr y Maer

**Presenoldeb**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr:** | Cyng: John Wyn Jones (Cadeirydd), Gareth Parry, Delyth Russell, Dylan Fernley (rhan) |
| **Swyddogion:** | Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas (rhan)<br>Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol |
| **Eraill:** | - |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng: Gwynant Roberts (Dirprwy Gadeirydd), Jackie Spence, Elin Walker Jones, John Wyn Williams, Medwyn Hughes, Steve Bell. |

---

**Dechreuodd y cyfarfod am 11.00.**

| Camau | Cyfeirnod | Eitem |
|---|---|---|
| 1. | | **Ymddiheuriadau:**<br>Fel y nodwyd uchod. |
| 2. | | **Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:**<br>Dim byd i'w nodi. |
| 3. | | **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf:**<br>Gohiriwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (27.04.26) i'w cymeradwyo tan y Pwyllgor Cyllid a Monitro nesaf a drefnwyd. |
| 4. | | **Cymeradwyo dyfarnu cytundeb gwyrddu i Antur Waunfawr / Cyngor Gwynedd, cyfanswm o £8,000:**<br>Cyflwynwyd tri dyfynbris i'r Pwyllgor ar gyfer y contract gwyrddu. Derbyniwyd dau ddyfynbris gan sefydliadau garddwriaethol a derbyniwyd y trydydd dyfynbris gan dîm Anabledd Dysgu Cyngor Gwynedd, a gynigiodd wasanaeth gwyrddu a oedd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ystyrlon i oedolion agored i niwed o Fangor i ymgymryd â'r gwaith hwn, mewn amgylchedd dan oruchwyliaeth.<br>• Roedd y Cynghorwyr yn fodlon bod y gweithdrefnau angenrheidiol wedi'u dilyn i gaffael y contract hwn.<br>• Roedd y Cynghorwyr yn fodlon bod y dyfynbris a ddarparwyd gan Gyngor Gwynedd yn cynrychioli gwerth am arian. |

- Mynegodd y Cynghorwyr yr angen i swyddogion gynhyrchu manyleb 'wyrddio' ffurfiol, cyn caffael y gwasanaeth hwn yn y flwyddyn ddinesig nesaf er mwyn i'r Cyngor Llawn allu ei gymeradwyo cyn mynd i mewn i'r cyfnod caffael.

**Penderfynwyd:**

- Dyfarnu'r contract gwyrddu i Gyngor Gwynedd am werth o £8,000.
- Nodi y gallai costau ychwanegol godi pe bai angen dyfrio ychwanegol oherwydd tywydd eithriadol o gynnes.

**Daeth y cyfarfod i ben am: 11.40.**

**Wedi'i lofnodi gan:** .....

**Dyddiad:** .....